

**Ar ddydd Mawrth 16eg Rhagfyr 2008 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyncoch am 7.00 pm**  
**PRESENNOL:** Y Cyng. R Owen (Cadeirydd); D M Hughes; Mrs G Price; Mrs E Davies; D R Morgan a'r cler.

**Roedd y Cyng. Sir D Suter hefyd yn bresennol**

**2389** Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyng. D Sheppard; D Jones; Mrs K Walker a T Davies

**2390 Materion Personol:** Dim

**2391 Datgan buddiant personol/rhagfarnol:** Dim

**2392 Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 25ain Tachwedd 2008 fel cofnod cywir

**2393 Cynigion gan Geredigion i leihau costau goleuo'r strydoedd:** Cynhaliwyd Cyfarfod yn Aberaeron ar 2il Rhagfyr i drafod cynigion i leihau costau goleuadau strydoedd. Roedd y Cyng. R Owen a K Walker yn bresennol. Adroddodd y Cyng. R Owen mai'r opsiwn a ffafrir yw uwchraddio lampau fel bo angen i leihau'r costau rhedeg, a throi mwyafrif y goleuadau stryd i ffwrdd rhwng canol nos a 5 y bore. Cafodd yr aelodau oedd yn bresennol yn y cyfarfod restr o oleuadau o fewn eu cymuned; byddai'r rhain yn cael eu diffodd oni bai bod y Cyngor yn dewis eu cadw ar gost i'r Cyngor o £14 y flwyddyn ar gyfer bob lamp.

Trafodwyd y cynnig ac roedd y Cyngor yn ei gefnogi mewn egwyddor ar yr amod bod y pum golau troedffordd rhwng Swyddfa Bost Penrhyncoch a Thyddyn Seilo (yr adran o'r briffordd lle nad oes yna lwybr troed) yn cael eu gadael ymlaen dros nos.

PENDERFYNWYD aros am wybodaeth bellach a thrafod y mater eto yn y cyfarfod nesaf.

Ymddiheurodd y Cyng. Mrs E Davies i'r Aelodau a gadael y Cyfarfod am 7.30 pm.

**2394 Cyfarfod cyntaf Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Wynt Nant y Moch:** Yn absenoldeb y Cyng. K Walker, cynrychiolydd y Cyngor yn y Cyfarfod, PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad hwn yn y cyfarfod nesaf.

**2395 Rhyddid Gwybodaeth - templed Cynllun Cyhoeddi Gwybodaeth Enghreifftiol:** PENDERFYNWYD trefnu bod copïau dwyieithog o'r templed yn cael eu harddangos ar Wefan Cymuned Trefeurig.

**2396 BDO Stoy Hayward LLP – Archwilio Cyfrifon y flwyddyn yn diweddu 31.03.08**

Derbyniwyd hysbysiad bod Archwiliad 2007/08 wedi'i gwblhau gan yr archwiliwr allanol ynghyd â Hysbysiadau'n rhoi gwybod bod yr Archwiliad wedi'i Gwblhau. PENDERFYNNODD y Cyngor:

1. Gymeradwyo a derbyn y Ffurflen Flynyddol
2. Arddangos Hysbysiadau Canlyniad yr Arolwg ym Mhenrhyncoch a Phenbontrhydybeddau am 14 diwrnod o leiaf

Ystyriwyd y materion yn yr adroddiad oedd yn mynd gyda'r Archwiliad:

1. **Asesu Risg:** Nodwyd cyngor yr Archwiliwr i nodi yn y Cofnodion fanylion llawn asesiad risg blynyddol y Cyngor o'i reolaeth ariannol, i gydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2005. PENDERFYNWYD adolygu'r asesiad risg yng nghyfarfod Ionawr 2009 wrth lunio'r gyllideb a gosod yr archebiant ar gyfer 2009/10 a nodi'r camau gweithredu a gymerwyd yn y Cofnodion. Dangoswyd y manylion hyn yn y gorffennol yn y Nodiadau Ategol sy'n mynd gyda'r Cyfrifon Ariannol

2. **Y Broses Gyllidol** PENDERFYNWYD monitro a chofnodi penderfyniadau ariannol yn erbyn cyllideb y Cyngor ar adegau rheolaidd.

3. **Gwarant Ffyddlondeb:** Mewn ymateb i gyngor yr Archwiliwr i sicrhau bod Gwarant Ffyddlondeb y Cyngor, sydd wedi'i osod ar £15,000 yn ddigonol, PENDERFYNWYD nodi'r sylw ond i gadarnhau bod hwn yn ddigonol ar gyfer cyllid y Cyngor.

4. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol – Adran 2 o'r Ffurflen Flynyddol:** roedd adroddiad yr Archwiliwr yn cwestiynu a oedd y dyddiad a'r rhif cofnod ar gyfer cadarnhau cymeradwyaeth y Cyngor o'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2007/08 yn gywir.

Gwiriwyd cofnod y cyngor 2388 dyddiedig 13 Mai 2008 a ddangosir yn Adran 2 o'r Adroddiad Blynyddol gan y Cadeirydd yn erbyn llyfr Cofnodion y Cyngor.

Cadarnhawyd bod y cofnod hwn yn cyfeirio at Gyfrifon 2007/08 a'i fod yn gadarnhad cywir o gymeradwyaeth y Cyngor o'r Datganiad Cyfrifon. PENDERFYNWYD peidio â gweithredu ymhellach ar y mater hwn.

- 2397 Adolygu Map Cymunedol Trefeurig:** Arddangoswyd y map gerbron y Cyngor i'w adolygu. Nodwyd nifer o fân newidiadau a PHENDERFYNWYD gwneud cais i gynnwys y rhain ar y map newydd.

**Materion Ariannol**

- 2398 HSBC Balans Cyfrif Cymunedol @ 13.12.08: £1,000.44** (taflen 291)  
Mae hyn, ynghyd â balans *Business M/Manager* o £8308.20 yn rhoi cyfanswm o £9,308.64 i'r Cyngor hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol: (mae £3,500 o hwnnw wedi'i glustnodi ar gyfer rhoddion ariannol a £1,000 i'w gadw wrth gefn).

**Cytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol:**

- 2399 Anfoneb BT** – Galwadau a thaliadau'r Cyngor hyd 11/12/08: £95.95+TAW £13.72-£109.67 sic 886  
**2400 P Walker** – Cyflog Hydref/Rhagfyr '08: £600.73 sic 887  
**2401 BDO Stoy Hayward LLP Accountants:** Costau archwilio Ffurflen Flynyddol 2007/08: £400 + TAW £70 – Cyfanswm £470 sic 888

**Ystyriwyd y Cais Cynllunio canlynol:**

- 2402 A081122** 56 Glanceulan, Penrhyncoch – gwelliannau ac estyniad deulawr: Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais hwn.  
**2403 A030530 Tir Amwynedd, Dôl Helyg, Penrhyncoch:** Mewn ymateb i ymholiad pellach ynghylch y tir hwn (4ydd Rhagfyr 2008), derbyniwyd hysbysiad gan Ceredigion bod hwn wedi'i basio at sylw Mr Gwyn Jones. PENDERFYNWYD hysbysu'r preswlydd o Ddôl Helyg a wnaeth yr ymholiad diweddar)  
**2404 Cynhelir Cyfarfod nesaf y Cyngor am 7.00 pm ar Ddydd Mawrth, 20fed Ionawr 2009 yn Hen Ysgol Trefeurig**

Cyn gadael y Cyfarfod am 7.40 pm nododd y Cynghorydd Sir, D Suter ei fwriad i gysylltu ag Adran Briffyrdd Ceredigion i roi gwybod am y pryderon a'r anawsterau a wynebwyd gan drigolion y gymuned mewn perthynas â ffyrdd rhewllyd sydd heb eu graeanu, ynghyd â'r diffyg cludiant cyhoeddus, a chadarnhaodd y byddai'n atgyfnerthu ceisiadau'r Cyngor Cymuned am finiau graean ychwanegol i'w gosod yn y mannau sydd fwyaf eu hangen yn y gymuned.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.00 pm.

(Mae'r Cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yr Aelodau yng Nghyfarfod Nesaf y Cyngor)